*Aelodaeth is bwyllgor Cymorthdaliadau: Cllrs / Cyng Rob Parkes, Raymond Bartley, Medwyn Williams, Colin Hughes, Roy Tickle, Shereen Devine a Gaynor Wood.*

**Cofnodion is-bwyllgor Cymorthdaliadau a gynhaliwyd nos Fercher, Chwefror 18fed 2015 am 5 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Rob Parkes, Raymond Bartley, Roy Tickle, Gaynor Wood, Medwyn Williams a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Shereen Devine.

**Datganiad Diddordeb:** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

Dywedwyd fod **£12,316.94** ar gael yng nghyllideb cymorthdaliadau (cyfanswm cyllideb cymorthdaliadau yn £50,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol). Ystyriwyd tri o geisiadau. Cytunwyd i argymell y canlynol ynglŷn â phob un o'r ceisiadau

1.Clwb Ffilm Dinbych. Derbyniwyd y cais cymorthdaliadau gwreiddiol ar Dachwedd 21ain 2014 yn gofyn am gymorth i brynu taflunydd ffilm newydd. Gohiriwyd y cais er mwyn derbyn gwybodaeth oddi wrth y clwb ffilm am ganlyniadau ceisiadau ariannu eraill. Derbyniwyd nodyn oddi wrth Vesi Jones ar ran y clwb ffilm yn dweud fod yr ymgyrch codi arian i brynu a gosod taflunydd wedi bod yn llwyddiannus ac nid oedd angen mwy o arian. Dywedwyd fod hyn yn dangos yr angen i gwestiynu ceisiadau.
Cytunwyd i gofnodi fod y cais wedi ei dynnu'n ôl.

2.Sioe Dinbych a Fflint. Cais blynyddol (Sioe 2015). Cytunwyd i argymell gohiriad tan y flwyddyn ariannol newydd.

3.Cae Dai. Cais yn gofyn am ariannu o £3,000 tuag at gostau prosiect o £3,144 i osod sustem larwm tân yn yr amgueddfa. Mynegwyd pryder fod (1) mai ond un dyfynbris a gafwyd, (2) roedd y grant a ofynnwyd amdano yn 95% o'r cyfanswm a (3) prinder gwybodaeth ar y ffurflen gais ynglŷn â gweithgareddau codi arian eraill. Yn dilyn ystyriaeth cytunwyd i argymell gohirio'r cais ac i ofyn am amcan brisiau ychwanegol a hefyd i dynnu sylw'r ymgeisydd at y ddau bryder arall a fynegwyd.

Cyfanswm grantiau a argymhellwyd - **DIM** gan adael balans o **£12,316.94** yng nghyllideb cymorthdaliadau ar gyfer yr un mis oedd yn weddill yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Terfynwyd y cyfarfod am 5.07 o'r gloch.